Westminster isn't Working!

1. **Economy** – In the 1950s the Welsh GDP was twice as big as Ireland's. Now, as an independent nation, the economy of the Irish Republic is 4 times the size of Wales. Westminster rule doesn't work – independence does.

2. **Water** – 243 billion litres of water is annually exported from Wales to England, but our communities see no benefit. Severn Trent Water, who own many reservoirs in mid Wales, sell Welsh water and make a £1bn a year profit. None of this profit returns to Wales.

3. **Transport** – Wales has 6% of the rail network of the UK but gets 1% of rail investment. We're the only country in Europe (except Albania and Moldova) which doesn't have 1km of electric rail. We don't even have a proper rail or road network connecting the north and south! This isn't good enough.

4. **Poverty** – Westminster rule has made the UK one of the most unequal states in Europe. London has a GDP of 614% of the EU average, whilst West Wales and the Valleys is one of the poorest regions in western Europe, with a GDP of 68% of the EU average. One third of children in Wales grow up in poverty. We need independence for the sake of our children. Wales is Poor because of Westminster rule.

5. **Energy** – Wales exports twice as much energy as we use, yet people live in fuel poverty. Our Assembly isn't allowed to decide on big energy projects over 350 MW such as the Swansea Tidal Lagoon. It seems Westminster politicians don't trust us to make decisions for ourselves.

6. **Democracy** – Wales has never voted for a Tory government but the majority of UK Governments since the 1950's have been Tory. Even with devolution Wales is still over ruled by Westminster as with rail electrification, nuclear waste and the Swansea lagoon. Independence stops that. Over 50 colonies have opted out of British rule; none have asked to return. Independence is normal.

Independence Works!

7. **Defence** – Trident, the UK's nuclear defence, will cost some £205bn. The UK has two aircraft carriers – with no aircraft – costing £6bn. Whilst Germany and Ireland invest in schools, rail and education, the UK throws money at the industrial military complex. The UK has fought 12 wars since the Second World War. We can have a defence budget and policy suited to our needs.

8. **Nuclear Waste** – The threat of storing nuclear waste in Wales is very real under Westminster rule. Independence would stop Wales being a nuclear dumping ground and would give us control over planning consent for any new nuclear power stations and the waste that they create.

9. **Why not?** – Can anyone look at the utter mess of Westminster with its unelected House of Lords, handling of Brexit, scandals and lies, without thinking that Wales could do better? We're already independent in the majority of sport and other fields. Political independence is normal.

10. **We are a nation** – with our own language and evolving traditions, open to the world. Sovereign equality is one of the founding principles of the U.N. These independent nations are now 193 strong, let us be number 194. Wales, like Ireland or Denmark could pool its sovereignty. Independence will make interdependence work for Wales – all the people of Wales who call Wales home.

Follow YesCymru to see how Wales would be better as an independent nation state:

T: @YesCymru **F:** facebook.com/yescymru
W: yes.cymru **E:** post@yes.cymru

Yes cymru

Dydy San Steffan Ddim yn Gweithio!

1. **Economi** – Yn yr 1950au 'roedd GDP Cymru ddwywaith yn uwch na Gweriniaeth Iwerddon. Erbyn hyn, fel gwlad annibynnol, mae GDP Gweriniaeth Iwerddon bedair gwaith yn uwch na Chymru. Dydy San Steffan ddim yn dda i economi Cymru - mae annibyniaeth yn well.

2. **Dŵr** – Mae yna 243 biliwn litr o ddŵr yn cael ei bwmpio o Gymru i Loegr bob blwyddyn. Ond nid ein cymunedau ni sy'n elwa. Mae Severn Trent Water yn berchen ar sawl cronfa yng Nghanolbarth ein gwlad ac yn gwerthu'r dŵr gan wneud elw blynyddol o £1 Biliwn. 'Does dim ceiniog o hwn yn dod nôl i Gymru.

3. **Trafnidiaeth** – Mae 6% o rwydwaith rheilffyrdd y DG yma yng Nghymru, ond dim ond 1% o'r buddsoddiad. Ar wahân i Albania a Moldofa, ni yw'r unig wlad yn Ewrop lle nad oes 1km o reilffordd drydan. Does gennym ni ddim hyd yn oed ffordd addas na rheilffordd o gwbl rhwng de a gogledd Cymru!

4. **Tlodi** – Mae San Steffan wedi gwneud y DG yn un o'r llefydd mwyaf anghyfartal yn Ewrop. Mae cyfoeth Llundain yn 614% o'r cyfartaledd drwy'r UE ond mae de orllewin Cymru a'r Cymoedd ymysg yr ardaloedd tlotaf yng ngorllewin Ewrop, gyda 68% o'r cyfartaledd drwy'r UE. Mae traean o blant Cymru'n cael eu magu mewn tlodi. Er lles ein plant, mae'n rhaid i ni ennill ein hannibyniaeth. Mae Cymru'n dlawd diolch i San Steffan.

5. **Ynni** – Mae Cymru'n allforio ddwywaith mwy o ynni nac yr ydym yn ei ddefnyddio ond mae'n pobl yn byw mewn tlodi tanwydd. Nid yw San Steffan yn caniatau i'n Cynulliad wneud unrhyw benderfyniadau ar brosiectau ynni dros 350 MW – fel Morlyn Abertawe, er enghraifft. Yn ôl gwleidyddion San Steffan, dydyn' ni ddim ffit i wneud penderfyniadau drosom ein hunain.

6. **Democratiaeth** – Dydy Cymru erioed wedi ethol llywodraeth Geidwadol ond dyna yw'r mwyafrif o lywodraethau San Steffan ers y 50au. Hyd yn oed gyda datganoli mae llywodraeth San Steffan yn anwybyddu

Mae Annibyniaeth yn Gweithio!

barn a dymuniadau pobl Cymru. Gweler gwastraff niwclear, Morlyn Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd i enwi dim ond tri. Bydd annibyniaeth yn rhoi stop ar hynny. Byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ein hunain. Mae dros 50 o wledydd ledled y byd wedi torri'n rhydd o reolaeth Prydain – a does dim un ohonynt wedi gofyn am gael mynd nôl dan bawen San Steffan. Mae annibyniaeth yn normal!

7. **Amddiffyn** – Mae Trident, arf niwclear y DG, yn costio £205 biliwn. Mae gan y DG ddwy long gludo awyrennau sy'n costio £6 biliwn – a dim un awyren arnynt! Tra bo Denmarc a'r Iwerddon yn buddsoddi mewn addysg a rheilffyrdd mae'r DG ryfelgar yn taflu ein harian prin at y diwydiannau militaraidd. Mae'r DG wedi ymladd 12 rhyfel ers yr Ail Ryfel Byd. Fel Cymru annibynnol gallwn bennu cyllideb a pholisïau amddiffyn sy'n addas i ni.

8. **Gwastraff Niwclear** – O dan reolaeth San Steffan mae perygl real iawn i Gymru gael ei throi'n bin gwastraff niwclear. Yn y Gymru annibynnol gallwn atal hynny. Bydd gennym reolaeth dros unrhyw gynlluniau i godi gorsafoedd niwclear newydd a'r gwastraff maent yn ei greu.

9. **Pam lai?** – Pwy all edrych ar y llanast llwyr yn San Steffan - dros Brexit, eu sgandals a'u celwyddau dibendraw, Tŷ'r Arglwyddi anetholedig - heb feddwl y gallai Cymru wneud yn well? Rydym eisoes yn annibynnol yn y rhan fwyaf o chwaraeon a meysydd eraill. Mae'n bryd i ni ennill ein hannibyniaeth gwleidyddol hefyd – fel pob gwlad normal arall.

10. **Mae Cymru'n genedl** – gyda'i hiaith a'i thraddodiadau ei hun sy'n datblygu drwy'r amser. Mae'n genedl sy'n agored i'r byd. Mae cydraddoldeb sofran yn un o egwyddorion sylfaenol y Cenhedloedd Unedig ac mae 193 o'r cenhedloedd hynny bellach. Gadewch i ni fod yn rhif 194. Gallai Cymru, fel Denmarc a'r Iwerddon, gyd-rannu ei sofraniaeth. Bydd cyd ddibyniaeth yn gweithio i Gymru annibynnol. Er budd Cymru a'i holl bobl sydd – ac a fydd – yn ei galw'n gartref.

Dilynwch YesCymru i weld sut y bydd annibyniaeth yn sicrhau Cymru well:

T: @YesCymru **F:** facebook.com/yescymru
W: yes.cymru **E:** post@yes.cymru

Yes cymru